


papur



priordy



DWY LAW YN ERFYN SYDD YN Y DARLUN

T Rowland Hughes (1903-1949)
Caneuon Ffydd 139

Dewiswyd gan Fiona Elias. Gweler y rheswm am ei dewis y tu mewn

Rhifyn 330
PAPUR CHWEFWROR 2020


Gair gan ein Gweinidog

Y ddau Bab a pharti'r Pili-palas

Rwyf newydd fod yn gwyllo'r ffilm 'The Two Popes' ar Netflix. Ffilm ddrama a phortread ffuglennol sydd wedi'i hysbrydoli gan y cyfeillgarwch annisgwyl a ffurfiwyd rhwng y Pab ceidwadol Benedict XVI a'r Pab etholedig ychydig mwy rhyddfrydol Francis yn eu hymchwil am dir canol er mwy ffurfio llwybr newydd i'r Eglwys Gatholig.



Dau Gymro yw'r actorion - **Anthony Hopkins** sy'n chwarae rhan Y Pab Benedict a Jonathan Pryce yw Cardinal Jorge Mario Bergoglio a ddaeth yn ddiweddarach yn Bab Francis. Ceir digon o adolygiadau o'r ffilm mewn mannau eraill heb i mi orfod mynd i drafferth i lunio un ar gyfer y golofn hon! Ond teg nodi bod y ddau brif actor wedi derbyn enwebiad yr un ar gyfer Oscar - **Jonathan Pryce** ar gyfer yr actor gorau, a Syr Anthony Hopkins am yr actor cynorthwyol gorau.



Y farn gyffredinol yw bod Anthony Hopkins, o ran pryd a gwedd, yn mynd yn debycach i'r Pab Benedict wrth i'r ffilm fynd yn ei blaen. Mae'r tebygrwydd corfforol yn rhyfeddol.

Mae Jonathan Pryce yn cyfaddef nad yw'n arddel unrhyw greddo crefyddol tra bo Anthony Hopkins, a fu unwaith yn anghrediniwr, wedi dod i'r Ffydd yn ystod ei frwydr fawr i oresgyn alcoholiaeth. Mae'n sôn yn aml am ei gred yn Nuw. Yn ôl ei dystiolaeth ei hun, mae'n credu bod Duw'n medru defnyddio hyd yn oed y llanast mwyaf er daioni.

Roedd yn ddiddorol iawn clywed Anthony Hopkins yn sôn fel y mae'n parhau i fod yn greadur eithriadol o nerfus pan mae'n ymgymryd ag unrhyw rôl gyhoeddus, gan gynnwys actio. Mae clywed am ŵr mor ddawnus a phrofiadol yn parhau i ymdeimlo ag ychydig o nerfusrwydd cyn camu ar lwyfan neu o flaen camera'n gysur mawr i greadur

bach fel fi sy'n dal i deimlo'r pili-palas yn cynnal parti yn fy mola bob tro y byddaf yn esgyn i'r pulpud. Pam hynny tybed? Ai oherwydd fy mod yn gwybod nad wyf wedi paratoi'n ddigon da? Ai oherwydd fy mod yn cyffwrdd â mater sensitif yn fy mhregeth a fydd yn ei gwneud hi'n anodd i mi ei thraddodi, ac yn anodd i'm cynulleidfa wrando? Ai oherwydd fy mod yn ofni siomi fy ngwrandawyr? Neu ai oherwydd fy mod wedi cyrraedd y capel â'm gwynt yn fy nwrn, wedi rhuthro o'r tŷ gan fynd yn ôl ddwywaith i wneud yn siŵr fod y cig yn y ffwrn!

Wel, mae gwirionedd ym mhob un o'r rhesymau uchod - a mwy! Ond os oes rhaid bod yn nerfus o gwbl, rwy'n mawr obeithio mai achos y cryndod wythnosol yw ystyried o'r newydd ar gychwyn pob oedfa fawredd y dasg a'r fraint o esgyn i'r pulpud i bregethu Gair Duw. Yn hynny o beth, byddwn yn dechrau poeni pe na bai'r pili-palas yn parhau i ddawnsio ynof!



Gweddiwn

PARATOA NI, O DDUW I DDERBYN IESU

Rwyt yn ein disgwyl ni
hyd nes ein bod yn agored i ti.
Rydym yn disgwyl dy air
i'n gwneud yn dderbyngar.
Cyweiria ni i'th lais,
i'th ddistawrwydd di,
llefara a thyrd â'th Fab inni -
Iesu, gair dy dangnefedd.
Mae dy air yn agos,
O Arglwydd ein Duw,
mae dy ras yn agos.
Tyrd atom felly,
Na fydded inni fod yn fyddar i ti,
ond gwna ni'n dderbyngar ac agored
i Iesu Grist dy Fab,
a ddaw i chwilio amdanom a'n hachub ni
heddiw a phob dydd,
yn oes oesoedd,
Amen.



Gweddi gan Hoob Oosterhuis - Jeswit, caplan ymhlith y myfyrwyr yn Amsterdam (Mil a Mwy o Weddïau)

Mis Chwefror	Darlleniad
Wythnos 1	Salm 24
Wythnos 2	Salm 112: 1-9
Wythnos 3	Salm 119: 1-8
Wythnos 4	Salm 2
Dydd Gŵyl Dewi	Salm 32

DIOLCH YN FAWR

Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad

CHRISTINE DAVIES
CAERFYRDDIN A TIPPERARY

at gyhoeddi'r Papur y mis hwn

Y PRIORDY'N DATHLU
GŴYL DEWI
yn

*Pethau da**

PETHAU DA

NOS LUN, 2 MAWRTH 2020 am 6.30 erbyn
7.00

GWESTAI
REBECCA HAYES



Pris y Noson £10 (i'w dalu ymlaen llaw i David Lloyd)

Enwau ar y daflen yng nghyntedd y capel, os gwelwch yn dda.

Y Cyntaf i'r felin.....

Cwrdd yr Ofalaeth
5 Ionawr 2020



Mae'n arferiad yng Nghapel y Priordy i wahodd un o deuluoedd yr ofalaeth i arwain oedfa undebol ar Sul cyntaf y flwyddyn. Eleni tro Huw a Mwynwen Jones a'u plant, Gwion, Gwenan ac Elliw, un o deuluoedd ffyddlon y Priordy, oedd hi i'n harwain i mewn i'r flwyddyn newydd.

Wedi i Beti-Wyn estyn croeso i bawb i'r gwasanaeth, yn enwedig aelodau Cana a Bancyfelin a ffrindiau eraill a oedd wedi ymuno â ni ar gyfer yr oedfa, fe drosglwyddodd yr awenau i Huw. Nododd Huw ei bod yn ffrind i'r teulu dderbyn y gwahoddiad i arwain y gwasanaeth, ond gydag anrhydedd daw cyfrifoldeb. Cyfaddefodd fod y profiad o baratoi gwasanaeth wedi gwneud iddo barchu ein Gweinidog yn fwy fyth. Mae'n siŵr gen i fod pawb yn cytuno ag ef ein bod yn ffodus iawn o'n Gweinidog.

Rhoddodd Mwynwen ychydig o hanes y teulu'n dod i'r Priordy pan symudon nhw i'r dref tua'r adeg y cafodd Gwion ei eni, ac mae'r tri phlentyn wedi'u bedyddio yn y capel ac yn cael budd mawr o ddarpariaeth yr Ysgol Sul. Diolchodd am y croeso a gawsant a'r gefnogaeth gadarn ar hyd y blynyddoedd.



Roedd yr emyn cyntaf, '*Yn dy law y mae f'amserau*', yn un hollol addas ar ddechrau blwyddyn ac fe'i cyflwynwyd yn glir gan Gwenan ac Elliw, gyda'r geiriau'n gofyn i Dduw roi ei fendith ar ddechrau'r flwyddyn newydd hon. Yn dilyn y cyhoeddiadau, cawsom fwynhau talent cerddorol Gwion wrth iddo roi datganiad ar y clarinet yn ystod y casgliad. Cyflwynwyd yr ail emyn gan Eirian o Bancyfelin, gan barhau â'r un thema gyda'r geiriau '*Gwawriodd blwyddyn newydd eto*'.

Deuai'r darlleniad, gan Mwynwen, o Lyfr y Pregethwr, Pennod 3, Adnodau 1 i 18, sy'n nodi bod "*tymor i bob peth ac amser i bob gorchwyl dan y nef*". Aeth Mwynwen yn ei blaen i ddweud bod dechrau blwyddyn yn garreg filltir, yn gyfle i edrych yn ôl ond hefyd i edrych ymlaen mewn gobaith. Mae'r Nadolig wedi mynd, ac yn teimlo bron fel breuddwyd erbyn hyn gyda'r addurniadau wedi'u rhoi o'r neilltu am flwyddyn arall, ond mae'r anrhegion a gweddillion y gwleda'n brawf

nad breuddwyd ydoedd. Nid breuddwyd oedd hanes y geni chwaith a phwysleisiodd Mwynwen na ddylem roi Iesu o'r neilltu gyda'r addurniadau, gan mai Ef yw'r un anrheg sydd byth yn mynd yn hen nac yn colli ei sglein ac y bydd gyda ni bob amser.

I'n hatgoffa ni am yr anrheg amhrisiadwy hwn cafwyd cyfres o eitemau gan y plant, Elliw yn adrodd '*Cerdyn Nadolig*', sy'n cyfeirio at "*gariad y babi yn rhodd i ni i gyd*", a deuawd hyfryd gan Gwenan ac Elliw, '*Nadolig Llawen i chi gyd*'. Wedi i'r gynulleidfa uno i ganu'r garol '*Ganwyd Iesu*' a gyflwynwyd gan Gwion, cafwyd unawd swynol, '*Y Geni*', gan Gwenan.



Ar ôl edrych nôl, trodd sylw'r gwasanaeth wedyn at edrych ymlaen, gyda Gwion yn sôn am yr arferiad o wneud addewidion ar ddechrau blwyddyn newydd. Maen nhw'n hawdd eu gwneud ond yn dipyn o sialens i'w cadw. Ei addewid ef eleni yw bwyta llai o siocled er mwyn byw bywyd iachach a bod yn fwy ffit i chwarae pêl-droed. Addewid Gwenan yw ymarfer mwy o gymnasteg ac mae Elliw yn mynd i geisio darllen mwy o lyfrau a rhedeg yn gyflymach. Atgoffodd Huw ni ei bod yn bwysig bod yn synhwyrol wrth wneud addewid oherwydd nid rhywbeth i'w dorri ar chwarae bach ydyw. Yn y weddi gofynnodd Gwion am gymorth Duw i'n galluogi i gadw at ein haddewidion ac am ei gynhaliaeth Ef wrth i ni gerdded llwybr bywyd, heb anghofio am y rhai llai ffodus na ni.

Cafodd y neges hon ei hategu wrth i ni ganu'r emyn nesaf, '*O rho dy bwys ar freichiau'r Iesu*' a gyflwynwyd gan Non James o Cana. I ddilyn gweinyddwyd y Cymun ac yna cawsom y ffrainc o fod yn dyst i dderbyn chwe diacon newydd, Huw Jones, Elis Jones, Huw Michael, Alison Parsons, Elinor Wyn Reynolds a Jayne Woods. Wrth ddymuno'n dda iddyn nhw yn eu cyfrifoldebau newydd, diolchodd Beti-Wyn i'r pedwar oedd â'u tymor yn dod i ben yn dilyn gwasanaeth arddechog yn y ddiagoniaeth, sef Gareth Gravell, Eirlys Jones, Chris Lloyd a Tim Hayes. Ynghyd â'r diaconiaid newydd, bu Lyn Jones (Bancyfelin) a Ken Thomas (Cana) yn cynorthwyo i weini'r Cymun.

I gloi'r gwasanaeth gofynnodd Huw i ni uno i ganu ei hoff emyn o waith y diweddar W. Rhys Nicholas, '*Tydi a wnaeth y Wyrth*' ar y dôn Pantyfedwen. Pa ffordd well o gloi oedfa arbennig iawn i'n rhoi ni ar ben ffordd ar ddechrau blwyddyn newydd. Diolch yn fawr iawn i Huw, Mwynwen, Gwion, Gwenan ac Elliw am eu gwaith rhagorol.

HUW A MWYNWEN JONES A'R PLANT YN ARWAIN Y CWRDD DECHRAU'R FLWYDDYN

Gweler Adroddiad Meinir Jones



Llinos Jones.....

OEDFA DEULU

Bore Sul 12 Ionawr 2020

HYFRYD oedd cerdded i mewn i'r capel i gyfeiliant Band y Priordy, a chroesawodd Beti-Wyn yn llawen aelodau newydd i'r band ynghyd â'r gynulleidfa gan ddymuno blwyddyn newydd dda i bawb.



Lediodd Mac yr emyn cyntaf yn dda iawn, sef *Y mae i'n Waredwr* (CFf 416) ac yn dilyn y cyhoeddiadau gwnaethpwyd y casgliad gan Greta Fflur, Nel, Madog, Beca fawr a Beca fach!


Darllenodd Gwilym yr emyn *Duw sy'n codi ei dŷ* (CFf: 625) yn hyderus a chlr. Wedi sgwrs ar addunedau blwyddyn newydd gan Tomos ac



Osian cafwyd cyflwyniad ar nifer o addunedau gwahanol. Edrychwyd ar y mathau o addunedau sy'n cael eu torri'n gyson gan bawb fel. "*Bwyta llai o siocled*", "*Mwy o ymarfer corff*", "*Tacluso ystafell wely*" ayyb. Y neges glir oedd bod PAWB yn cael siom ac yn cael trafferthion i gadw addewidion ar brydiau - hyd yn oed gymeriadau yn y Beibl fel Ioan, Marc a Pedr. Neges Tomos ac Osian oedd bod bob amser

gyfle i drïo eto - nid un mis yn unig sydd yn rhoi y cyfle i ni drïo eto, ond deuddeg mis y flwyddyn. Dywedodd Tomos ei fod am fynd adref i dacluso'i ystafell er mwyn plesio'i fam - dyna adduned da iawn i'w gadw!

Wedi gweddi hyfryd gan Beca a Mali'n trafod pa mor ffodus ydyn ni i gael dechreuadau newydd a pha mor bwysig ydy cofio am rai sy'n drist ynghyd â holl ddioddefwyr tân erchyll Awstralia. Cydweddiodd y gynulleidfa Weddi'r Arglwydd, yna i gyfeiliant hyfryd y band taro, canwyd *Un cam bach*.(CFf 800)) ar ôl i bawb gymryd amser i ystyried yn ddwys pa offeryn fyddai orau i gydfynd â'r emyn!



Trafododd Beti-Wyn gyda ni'r pethau a gredwn sy'n llanw'n bywydau. Trwy ddefnyddio peli golf llenwodd y gynulleidfa jar wydr gydag

awgrymiadau o'r hyn sy'n bwysig yn eu bywydau - o Bingo i wyllo chwaraeon, o nofio i chwarae, o ddrama, siopa, canu'r piano i farcio....Roedd nifer o'r dynion yn llenwi eu bywydau, yn ôl pob sôn, trwy olchi, sychu a chadw llestri!



Er mor llawn o beli golff roedd y jar gwydr, profodd



Beti-Wyn i ni fod yna bob amser le i Dduw trwy Iesu mewn bywyd. Mae bob amser yno i'n cefnogi, ein hamgylchynu a hefyd i lenwi'n bywydau. Arllwysodd Beti-Wyn ddŵr i'r jar ac roedd gofod iddo o amgylch y peli golff, gan brofi fod bob amser le ac amser i Dduw yn ein bywydau.

GORFFENNWYD yr oedfa deulu hyfryd y tro hwn trwy ganu *Air Disglair Duw*(CFf 228).

PLANT DEWI

GRŴP CEFNOGAETH DEONIAETH CAERFYRDDIN


BORE COFFI

Dydd Sadwrn 15 Chwefror 2020 am 10
Neuadd Ddinesig San Pedr

Pancws, Coffi, Stondiau

Mynediad £3

Croeso cynnes i bawb



CAPEL Y TABERNACL YR AIS, CAERDYDD

Nos Fawrth 5 Mawrth 2020 – 7 pm

Mae'n bedwar canmlwyddiant cyhoeddi Beibl 1620. Cynhelir yr oedfa nid yn unig i ddathlu'r achlysur arbennig hwn ond hefyd gyfraniad y Beibl i fywyd Cristnogol Cymru yn ogystal â'i chyfraniad i'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru. Croeso cynnes i bawb,

Papur Priordy'n sgwrsio â...

GWYNFOR DAVIES

PP: Gwynfor, rwyf ti, gyda chymorth Janet, wedi bod yn argraffu Papur Priordy o Sul i Sul ers blynyddoedd maith bellach. Ond ble dechreuodd y diddordeb yma mewn argraffu?



GD: Mae diddordeb mewn argraffu wedi bod gyda fi ers blynyddoedd. Ro'n i ar un adeg yn casglu stampiau. Roedd hynny'n gyfle i mi edrych ar ddyluniad y stampiau a pha fath o brint oedd arnyn nhw. Mae casgliad y stampiau gen i o hyd. Mae'n ddiddorol edrych yn ôl ar ddigwyddiadau'r ganrif ddiwetha, fel y spwt nic yn mynd i'r gofod ac ar stampau Nadolig gwahanol wledydd. Dw i wedi cofnodi dyddiad pob un ohonyn nhw hefyd. Felly, y stampiau ddechreuodd y diddordeb ac mae wedi datblygu ers hynny!



PP: Oes unrhyw newidiadau mawr wedi digwydd yn y ffordd rydych chi'n argraffu'r Papur dros y blynyddoedd?

GD: Mae newidiadau mawr wedi digwydd ym myd argraffu. Mae'r cwbl nawr, yn cynnwys Papur Priordy, yn cael ei argraffu yn y modd digidol. Roedd Papur Priordy mis Ionawr yn sôn am Feibl William Morgan. Mae'n syndod meddwl bod y Beibl hwnnw wedi'i argraffu yn Lloegr gyda phob llythyren yn cael ei gosod gyda llaw. Camp fawr yn yr amser hwnnw - ond, diolch byth, does dim rhaid gwneud hynny heddiw!

Y Ddolen


Papur Miso...

Eglwys Annibynnol Cana
ac Eglwys MC Bancyfelin



PP: Nid Papur Priordy yw'r unig gylchgrawn eglwysig rydych yn ei argraffu ychwaith. Soniwch am y gweddill.

GD: Ryn ni'n argraffu sawl papur yn cynnwys Y Ddolen, sef Papur Cana a Bancyfelin a hefyd Papur y Plwyf, sef Papur Plwyf Dewi Sant Caerfyrddin – Eglwys Crist. Hefyd, ryn ni'n argraffu adroddiadau blynyddol rhai capeli.



Mae'n waith diddorol a dw i'n dod i ddysgu felly am lawer o gapeli ac eglwysi'r cylch!

PP: Mae Papur Priordy hefyd yn ymddangos ar wefan y capel. Ond aelod arall o'r teulu sy'n gyfrifol am hyn!

GD: *Ie, mae Rhodri'r mab yn gosod y manylion ar wefan y Capel. Mae e'n byw yn Farnborough gyda'i wraig Ming a'r plant Aneira Rui, Cerys Shan ac Eleri Jing. Mae'n rhyfeddol nad yw pellter yn broblem i wneud hyn! Mae'n debyg fod nifer cynyddol o bobl yn troi at y wefan o fis i fis. Mae'r papurau ar y wefan yn mynd yn ôl i 2007. Mae'r cyfan yn gofnod pwysig i ni allu olrhain hanes a llwyddiant y capel ers yr amser hynny.*



PP: Gwyddom dy fod yn argraffu sawl peth arall i ni yn y Priordy ond, ar wahân i'r gwaith eglwysig, pa fathau eraill o bethau rwyd ti'n eu hargraffu?

GD: *Rwy'n argraffu sawl peth – o lyfrynnau i bosteri a thocynnau ar gyfer gwahanol fudiadau. Dw i hefyd yn defnyddio techneg ffoil argraffu poeth er mwyn rhoi tipyn o sglein ar bethau fel penawdau llythyrau a chardiau ar gyfer gwahanol fudiadau. Mae rhywbeth i'w ddysgu o hyd!*



PP: A mynd yn ôl am funud, Gwynfor, mae'r gwreiddiau, ym Mhontarddulais a Llandysul.



GD: *Ydyn, Ces i fy nghodi yn Mhontarddulais yn un o saith o frodyr i*

William a Dilys Davies hyd nes oeddwn yn saith oed. Glöwr yng Nghraig Merthyr oedd Dad. Wedyn symudais i Landysul i fyw gydag Wncl Simon a Modryb Gwenda. Mwynheuais i fy magwraeth ym Mhontarddulais a Llandysul a chael amser dymunol iawn.

PP: Y gwaith yn dy ddwyn i Gaerfyrddin?

GD: *Ie. Dechrau yng Ngholeg Addysg Bellach Caerfyrddin ac yna symud i Lanelli ym 1985 cyn ymddeol.*

PP: Ers pryd rwyd ti a Janet yn aelodau yn y Priordy?

GD: *Ryn ni wedi bod yn aelodau yn y Priordy er 1981. Ry'n ni wedi mwynhau'r profiad yn fawr o fod dan ofal ein gweinidogion - Alun Page, W.J.Edwards a nawr Beti-Wyn.*

PP: Roedd pysgota'n ffordd o ymlacio i ti ar un adeg. Ydy hynny'n parhau?

GD: *Wel, dwi'n dal i gael tipyn o hwyl ar bysgota ar lan yr afon ar dir Dai Lloyd. Mae'r tymhorau'n newid a dyw hi 'ddim fel y buodd hi' - a dyfynnu'r hen gân! Bydd 'dal a rhyddhau' yn dod i rym yn fuan ac fe fydd hi'n anghyfreithlon i ddal pysgod ar yr Afon Tywi a'u cadw!*



PP: Rwyd ti o hyd yn cael dy ddenu i Barc Waun Dew!

GD: *Ydw, mae'n dipyn o hwyl gweld y Dre'n chwarae. Mae cwmni da yno bob tro gydag Alun Charles a Peter Hughes Griffiths ac eraill. Yn anffodus, dyw Caerfyrddin ddim yn cael y canlyniadau delfrydol ar hyn o bryd ond daw haul ar fryn! Bues i hefyd yn argraffu Rhaglen Bêl-droed y Clwb am flynyddoedd lawer. Gwaith munud olaf ar fore Sadwrn oedd hwn yn aml yn y gaeaf os oedd y tywydd yn wael ac ansicrwydd a fyddai'r gêm ymlaen ai peidio. Ond dyw hynny ddim yn broblem bellach gan fod cae pob tywydd ym Mharc Waun Dew erbyn hyn!*



PP: Rydyn ni ar ddechrau blwyddyn newydd, Gwynfor. Beth am orffen gydag unrhyw

ddymuniad sy gennyt ar gyfer 2020?

GD: *Pob hwyl a dedwyddwch i bawb yn 2020 ac i'r capel hefyd dan arweiniad Beti-Wyn.*

Llawer iawn o ddiolch i ti am ateb y cwestiynau ac i Janet a thithau am y gwaith argraffu a wnewch dros y Priordy.

AR Y WE:

www.priordy.org (yn cynnwys Papur Priordy)

TUDALEN BLAEN

Rheswm Fiona Elias dros ddewis ‘Dwy law yn erfyn sydd yn y darlun...’

Un o'r prif resymau i mi ddewis y gân ‘Dwy law yn erfyn’ ydy'r ffaith ei bod yn f'atgoffa am fy mhentyndod, a'r atgofion yn rhai melys tu hwnt. Mynychais Ysgol Gynradd Bod Alaw ym Mae Colwyn ac roeddwn i a fy ffrind pennaf, Lea, yn cystadlu'n gyson ar y ddeuawd.




Un flwyddyn y gân hon oedd y darn gosod, ac am y tro cyntaf, a'r tro olaf, fe wnaethon ni lwyddo i gael llwyfan yn yr Eisteddfod Sir!! Yn y cyfnod hwn, roedd eisteddfod flynyddol yn cael ei chynnal yn y capel roeddwn i'n ei fynychu, sef **Capel Bryn Ebenezer**, ac ar ôl ein llwyddiant (!) yn yr Eisteddfod Sir, dyma fynd ati i ganu'r gân eto ac eto! Mae'n siŵr bod aelodau'r capel wedi cael digon o glywed y gân flwyddyn ar ôl blwyddyn, ond roedd pawb yn rhy gwrtais i ddweud yn wahanol! Yn ogystal â chanu'r gân

yn yr eisteddfodau, rwy'n cofio cael gwers Addysg Grefyddol yn seiliedig ar y gân hon yn Ysgol Bod Alaw, ac fe gafodd y geiriau gryn argraff arnaf. I fi'n bersonol, maent yn gwneud imi feddwl pa mor bwysg yw defnyddio dwylo yn y ffordd gywir. Yn rhyngwladol, mae cymaint o sôn am ryfeloedd yn nes at adref, nid oes wythnos yn mynd heibio heb i ni glywed am bobl yn cael eu trywanner. Yn hytrach na defnyddio'n dwylo i fod yn ormesol ac yn fygythiol, dylid mynd ati i'w defnyddio'n fwy cadarnhaol gan ymestyn allan i bobl sy'n llai ffodus na ni ac i helpu ffrindiau a theulu sy'n dioddef. Geiriau syml sydd i'r gân, ond geiriau mor bwerus. Tybed sut byddwch chi'n defnyddio'ch dwylo'n gadarnhaol yn ystod 2020?



**Albrecht Dürer – Ei ddarlun enwog
Dwylo a ysbrydolodd T Rowland
Hughes i gyfansoddi'r gân**



**T Rowland Hughes – Y cyfansoddwr
Brodor o Lanberis ac awdur nofelau fel
*William Jones a Chwalfa***


MERCHED Y CHWYLDRO

gan

Gwenan Gibbard

Merched pop Cymru'r 60au a'r 70au

Faint ohonoch chi sy'n cofio'r dyddiau da rheini yn y 60au a'r 70au pan ddigwyddodd y chwyldro hwnnw mewn canu pop Cymraeg ar hyd a lled Cymru?



Wel, os ydych am gael y stori'n llawn, ac yn arbennig y rhan a chwaraeodd y merched yn y bwrlwm hwnnw, trowch at y llyfr *Merched y Chwyldro* a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Ynddo fe gewch luniau ac adroddiadau am y grwpiau a'r unigolion a fu'n canu a chyhoeddi recordiau ac yn perfformio mewn theatrau a neuaddau llawn ar hyd a lled y wlad. Yn ogystal, fe gewch ddwy grynoddig sy'n cynnwys dros bedwar deg o ganeuon pop poblogaidd gan artistiaid y cyfnod.

Un o'r grwpiau oedd **Y Melinwyr**, sydd yn dal â chysylltiad â Chapel



Bancyfelin. Fel hyn y mae'r awdur yn sôn amdanyn nhw:

“Yng Nghaerfyrddin roedd criw o ferched o ardal Bancyfelin yn canu mewn cyngherddau ac ar raglenni teledu ac yn crwydro'r wlad gyda'u canu harmoni clos a bywiog. Marian a Meinir

Evans, dwy chwaer, a Margaret Hughes a Carol Thomas oedd yr aelodau...”

Ond mae Gwenan Gibbard yn rhoi dwy dudalen lawn i un o aelodau'r Priordy, sef Meinir Lloyd, gan gynnwys lluniau o glawr dwy o'i recordiau ac un ohoni'n canu'r delyn mewn rhaglen deledu. Fel hyn y mae'n sôn am Meinir: *“Un sydd â'i henw yr un mor adnabyddus heddiw â chanol y 60au yw'r ddihafal Meinir Lloyd, ac un a ddaeth*

i'r brig ym maes y delyn a cherdd dant, ond un a allodd gamu'n rhwydd i fyd y canu cyfoes fel y cofnodwyd yn Y Cymro ym mis Hydref 1963 mewn adroddiad am y rhaglen deledu Gorwelion – 'O bawb sy'n ceisio dehongli'r caneuon pop cyfoes yn Gymraeg y dyddiau hyn, gan Meinir Lloyd y mae'r llais a'r osgo mwyaf llwyddiannus i'r pwrpas.'

Un o ganeuon mwyaf poblogaidd **Meinir** yn y cyfnod hwnnw oedd *Watshia Di Dy Hun*. Mae'n rhyfedd sut y daeth yr un gân, gyda Meinir yn ei chanu ar yr un record, yn enwog unwaith eto yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Y gân y mae Meinir yn ei chanu ar y CD hon yw *'Rôl syrthio mewn cariad*. Ychwanegodd Gwenan: *"Bu Meinir yn amlwg am flynyddoedd lawer ym maes cerddoriaeth gyfoes, gwerin a cherdd dant, a daeth y gân a gyfansoddodd ar y cyd â'i gŵr Peter Hughes Griffiths, Cân y Celt yn anthem gyfoes Gymreig hynod o boblogaidd."*



A bod yn deg, mae sawl cyfeiriad yn y llyfr at gyfraniad **Peter** hefyd i fwrlwm canu pop y chwedegau, gan nodi mai ei gyfansoddiadau a'i gyfieithiadau e i'r Gymraeg o nifer o'r caneuon oedd sylfaen y rhaglenni radio gyntaf dan ofal Ruth Price, gydag Aled a Reg ac eraill yn canu bob bore Sadwrn. Fe gyhoeddodd Peter y llyfr caneuon *Tonc* a oedd yn cynnwys patrymau cordiau gitâr. Hwn oedd y llyfr cyntaf o'i fath yn y Gymraeg, a bu'n boblogaidd iawn.



Mae llyfr Gwenan yn cyfeirio at unigolion fel Heather Jones a grwpiau fel Y Pelydrau hefyd. Fe ddaethon nhw'n boblogaidd iawn, ac mae'n nodi mai Peter a roddodd y wobr gyntaf i'r naill fel y llall yn y gystadleuaeth canu pop yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nghaerfyrddin ym 1967, gan eu cychwyn ar eu taith lwyddiannus.

Mae 'MERCHED Y CHWYLDRO' yn gofnod gwyb o fwrlwm newydd y canu pop Cymraeg yn y 60au a'r 70au, ac yn dangos gwaith ymchwil manwl a thrylwyr gan **Gwenan Gibbard**, a diolch iddi am ei chyfraniad pwysig.



YR WYTHNOS WEDDI AM UNODD CRISTNOGOL

Bore Sul am 10 yn y Priordy

Roedd y gwasanaeth yng ngofal yr aelodau. Yr arweinydd oedd Adrian Evans a chymerwyd rhan gan Chris Lloyd (Stori'r Plant), Catrin Heledd Jones (Darlleniad), Elis Jones (Gweddi) ac Alun Charles (Myfyrdod). Diolch i Beti-Wyn am baratoi'r testun Pwynt Pwer. Y Dr Angharad Wyn oedd wrth yr organ a hynny am y tro cyntaf a dymunwyd yn dda iddi wrth y gwaith. Roedd thema'r gwasanaeth yn troi o gwmpas prif neges yr Wythnos Weddi, sef galw am gryfhau'n hundod a'n perthynas â'n cyd Gristnogion er gwaethaf pob gwahaniaeth sydd rhyngom o ran gwlad, iaith, enwad a chyfnod.



Yn yr hwyr am 5 yn y Capel Wesle

Cynhaliwyd y gwasanaeth dwyieithog dan nawdd Cytûn. Roedd maint cymharol fach a chlydwch y Capel Wesle'n gartref addas ar gyfer y gynulleidfa a ddaeth ynghyd. Yn ystod yr awr cyn i'r gwasanaeth ddechrau roedd cyfle i fwynhau paned a sgwrs â'n gilydd ac i bori yn y stondinau cacennau a chrefftau. Cymerodd gweinidogion ac offeiriaid y dref, yn cynnwys Beti-Wyn, ran yn y gwasanaeth a chawsom ddarlleniad hefyd gan y Cynghorydd Jeff Thomas, Maer y Dref. Roedd y cyfan yn seiliedig ar hanes Sant Paul a'r llongddrylliad ym Malta. Cafwyd pregeth yn Gymraeg gan y Parchedig Ddr Mathew Hill, Offeiriad â Gofal Bywoliaeth Eglwysi Sant Pedr, Caerfyrddin, Abergwili a Chapel y Groes. Pwysleisiodd mor bwysig yw hi i Gristnogion ddysgu a derbyn oddi wrth ei gilydd gan fod modd cyrraedd yr un pwynt o safbwynt gwahanol a thrwy ffyrdd gwahanol o feddwl.



Yn yr wythnos ar foreau gwaith

Cynhaliwyd cyfres o fyfyrdodau byr yng Nghapel y Bedyddwyr Saesneg ar Fore Llun a'r Capel Wesle ar Fore Mawrth hyd Fore Gwener. Roedd dau o'r cyfarfodydd hyn yn Gymraeg gyda Beti-Wyn yn arwain un ohonynt..





‘Agor y Gair’



**Cyfres Newydd o Astudiaethau Beiblaidd Cymraeg
yng Nghaerfyrddin**

**Boreau Mercher 26 Chwefror, a 4,11,18 Mawrth 2020
11.00 tan 12.00**

Canolfan ‘Yr Atom’, Stryd y Brenin, Caerfyrddin

Croeso cynnes iawn i bawb



DRWS AGORED

FESTRI'R PRIORDY

BORE IAU 27 Chwefror 2020

Paned a Bisgedi am 10.30 / Myfyrdod Byr am 11

Croeso cynnes i bawb o bob capel ac eglwys



**Gwahoddiad gan Gyngor Ysgolion Sul Cymru
i**

Oedfa o Ddiolchgarwch am waith

Gobaith i Gymru a beibl.net

Dydd Sadwrn 29 Chwefror 2020 am 2

Capel Penuel, Caerfyrddin

***Byddwn yn dathlu bod gwefan beibl.net bellach yn 18 oed ac yn
lansio dwy wefan Gristnogol newydd***

Pregethir gan y Parchedig Ddr Geraint Tudur

Cyflwynir tysteb i Arfon Jones a Gwenda Jenkins, Swyddogion

Gobaith i Gymru

Gwneir casgliad at waith datblygu'r Beibl yng Nghymru

Gwybodaeth bellach: Aled Davies @ysgolsul.com



**Beth am droi at
Wefan yr Undeb?
www.annibynwyr.org**



APÊL MIS CHWEFROR

LLOCHES I FENYWOD, CAERFYRDDIN



Bu'n Gweinidog mewn cyswllt â Gwasanaethau Cam-drin Domestig Caerfyrddin a deall fod angen mawr ar hyn o bryd am offer cegin ar gyfer y Lloches.

Bydd blwch ym mlaen y capel ar Sul cyntaf Chwefror a thrwy'r mis i dderbyn unrhyw gyfraniadau.

Gofynnir yn garedig i chi gyfrannu pethau newydd (heblaw am sosbenni). Os yw'n well gennych roi rhodd ariannol, yna mae croeso i chi wneud hynny a'i gosod mewn amlen yn y blwch. Trefnwn wedyn i brynu offer fel sydd ar y rhestr, er enghraifft, tegellau a thostwyr, ar eich rhan.

Dyma restr o'r mathau o bethau sydd eu hangen

**Tywelion Llestri Te
Cyllyll, Ffyr a Llwyau
Offer Coginio (hy, Llwyau Pren ac ati)
Cyllyll
Menyg Ffwrn
Sosbenni neu Ffrimpanau
(*derbynnir rhai ail-law mewn cyflwr da*)
Clytiau Golchi Llestri
Padiâu Sgwrio neu Frwshis Golchi Llestri
Clytiau Golchi Llestri
Tegellau
Tostwyr**

Llawer iawn o ddiolch i chi am eich cymorth a'ch cydweithrediad.

TWRNAMAINT PÊL-DROED A PHÊL-RWYD MIC





Sesiwn Goginio!

Wel, fe gafwyd sesiwn ardderchog yn yr Ysgol Sul!

Diolch yn fawr iawn i Jayne a Mari am drefnu ac i Jac a Jona am helpu. Roedd dysgu am stori'r Ddafad Golledig yn y modd hwn yn ardderchog.

Chwaraeon MIC



Llongyfarchiadau mawr i bawb a fu'n cystadlu yn nhwrnamaint pêl-droed a phêl-rwyd MIC. Ardderchog! A

llongyfarchiadau arbennig i'r tîm pêl-droed uwchradd (ar y cyd â Chapel Bancyfelin) am ennill y cwpan ac i'r tîm pêl-rwyd uwchradd am ddod yn ail

a hefyd y tîm pêl-rwyd cynradd (ar y cyd â Chapeli Bryn Iwan a Blaenynoed).

Dathlu Gŵyl Dewi

Gwasanaeth Gŵyl Dewi
Ysgolion Sul y Dref. Bore Sul,
1 Mawrth am 10 o'r gloch yng
Nghapel Heol Awst. Croeso i
bawb. Plant i wisgo'u
gwisgoed Cymreig





	Ysgol Sul a	PIP
Chwefror 2	Ysgol Sul	PIP
Chwefror 9	Cwrdd plant a phobl ifanc	Cwrdd plant a phobl ifanc
Chwefror 16	Hanner Tymor	Hanner Tymor
Chwefror 23	Ysgol Sul	*
Mawrth 1	Gwasanaeth Gŵyl Dewi	Gwasanaeth Gŵyl Dewi

Hwyl am y tro

Beti-Wyn

TWRNAMANT PÊL-DROED A PHÊL-RWYD MIC




HELYNT Y COMA!

MAE canllaw Gwasg Prifysgol Rhydychen ar arddull yn dweud y dylid gosod coma mewn rhestr o dri neu fwy o eitemau yn union o flaen 'a / neu'. Mae'n rhoi enghraifft - '*Coch, gwyn, a glas*'.




Ar y llaw arall, mae canllaw Prifysgol Rhydychen ychydig yn wahanol ac yn dweud nad oes rhaid cynnwys coma rhwng yr eilem olaf ond un ac 'a / neu' oni bai bod ei angen i osgoi unrhyw amwysedd. Mae'n rhoi enghraifft – *Gadawodd ei harian i'w rhieni, Y Fam Teresa a'r pab.* Mae Prifysgol Caergrawnt o'r un farn.



Ond mae anwybyddu'r coma ar y darn arian 50c (hy ar ôl y gair *prosperity*) a fathwyd i ddathlu Brexit wedi cynddeiriogi'r nofelydd **Philip Pulman** ac eraill - i'r fath raddau'n

wir fel eu bod yn galw am ei foicotio'n llwyr!

Cafodd tua thair miliwn o'r darnau arian hyn eu rhyddau i'r banciau a'r swyddfeydd post a'r siopau ar 31 Ionawr 2020 - y diwrnod y gadawodd y Deyrnas Unedig yr Undeb Ewropeaidd.



Rhywbeth bach yw coma, meddech chi, ond ydych chi wedi sylwi fel mae'r pethau lleiaf yn aml yn gallu achosi'r problemau mwyaf? A wyddech chi, er enghraifft, fod y grym gan ychydig dan litr o olew i lygru dros 945,000 litr o ddŵr?

A PHA mor fach neu ddibwys y mae rhywbeth yn ymddangos mewn bywyd, mae'n gallu achosi problemau mawr os yw'n cael lle yn rhywle na ddylai fod.

EIN DIACONIAID NEWYDD



**THEATR Y LYRIC
YSGOL GYFUN GYMRAEG
BRO MYRDDIN**

yng nghwmni

TRI THENOR CYMRU

Nos Wener 6 Mawrth 2020 am 7.30

Tocynnau: ☎0345 2263510



BORE COFFI

Bore Sadwrn, 4 Ebrill 2020 – 10.30-12.30

Festri Capel Y Priordy

***Stondinau amrywiol - Gêmau i'r plant - Paned
dda a chroeso cynnes!***

Mynediad- £2



***Elw at gefnogi ymdrech Selina Jones, un o
famau'r Ysgol Sul, a fydd yn rhedeg Marathon
Llundain dros Gymorth Cristnogol***



**CYMANFA GANU FODERN GŴYL DEWI
CAPEL BANCYFELIN**

Nos Sul, 1 Mawrth 2020

Ann Davies

Arweinydd

Band y Priordy

Cyfeilyddion

Gwyneth Stephens


Llywydd

Eitem gan Ysgol Bancyfelin

**Tocynnau: £5 – ar gael gan Aelodau Bancyfelin neu wrth y drws
Rhaglenni ar y noson**

Elw at Apêl Sanclêr, Bancyfelin a Llangynnin

Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Gaerfyrddin 2021



COFIWCH AM Y BLWCH STAMPIAU A'R BLWCH CETRYS YN Y CYNTEDD

PEN-BLWYDD DIWRNOD NAID

29

MAE 2020 yn flwyddyn naid. Mae'n golygu fod diwrnod ychwanegol ar ddiwedd mis Chwefror. Felly, yn lle 28 niwrnod mae 29!

I lawer, wrth gwrs, mae dyfodiad 29 Chwefror yn golygu diwrnod ychwanegol o waith, diwrnod arall ar y morgais, a phapur cyflog yn cyrraedd 24 awr yn hwyrach! Does ryfedd felly fod blwyddyn naid yn cael yr enw o fod yn un anlwcus!

Mae'r ods o rywun yn cael ei eni ar 29 Chwefror yn isel iawn (1: 1,461 neu 0.68%). Tra bo pobl sy'n cael eu geni ar y diwrnod hwn yn mynd yn hŷn bob blwyddyn, dim ond unwaith bob pedair blynedd (neu wyth mlynedd yn 2100, 2200 a 2300) maen nhw'n dathlu'u pen-blwydd ar yr union ddiwrnod.

Mae pobl sy'n cael eu geni ar 29 Chwefror fel arfer yn dathlu eu pen-blwydd ar 28 Chwefror neu 1 Mawrth. Mae rhai pobl yn dweud eu bod nhw chwarter yr oedran ydyn nhw, ee. pan maen nhw'n 36 oed, maen nhw dathlu eu nawfed pen-blwydd - felly maen nhw'n dweud eu bod nhw'n 9 oed!

Mae geni un plentyn ar ddiwrnod naid yn ddigon unigryw ond cafodd teulu yn Norwy groesawu tri phlentyn ar wahanol ddyddiau naid, y naill yn bedair blynedd ar ôl y llall!. Cafodd Karin and Henry Henriksen dri phlentyn - ganed Heidi, yr hynaf ym 1960, Olav ym 1964 a Leif-



Martin, yr ieuengaf, ym 1968 - y tri ohonynt ar ddiwrnod naid. Does ryfedd fod cofnod o hyn yn y *Guinness Book of Records*!

A meddylwch am **Syr James Milne Wilson**, Prifweinidog Tasmania rhwng 1869 a 1872. Nid yn unig y cafodd ei eni ar 29 Chwefror 1812 ond hefyd bu farw ar 29 Chwefror 1880. Dyma'r unig berson y gwyddys amdano a aned ac y bu farw ar ddiwrnod naid!

Teulu'r Keogh's yw'r unig enghraifft o deulu a wyddys sy wedi cynhyrchu tair cenhedlaeth yn olynol a aned ar 29 Chwefror – Peter

Anthony (Iwerddon) ym 1940, ei fab Peter Eric (Y Deyrnas Unedig) ym 1964 a'i wyres Bethany Wealth (Y Deyrnas Unedig) ym 1996.

Dyw'r person enwocaf, o bosib, a aned ar 29 Chwefror ddim hyd yn oed yn un go iawn!

Superman yw hwnnw! Wedi dweud hynny mae'n ddigon addas fod y fath berson wedi'i eni ar ddiwrnod mor arbennig!



Person enwog (go iawn!) a aned ym Manceinion ar ddiwrnod naid

yw'r awdur a'r bardd o Loegr John Byrom (1692-1763). Mae'n adnabyddus am ei garol Saesneg *Christians awake! Salute the happy morn (ar y dôn Yorkshire)*. Mae hen gyfieithiad o'r garol hon ar gael - *Grist'nogion clywch cyferch yn nghyd*.

Un arall a aned ar y diwrnod hwn yw Gioachino Rossini (1792 –1868), cyfansoddwr clasurol o'r **Eidal**. sy'n adnabyddus am eu operâu, fel *The Barber of Seville*.



Cymro enwog a aned ar 29 Chwefror yw **Robert Lloyd (1888-1961)** awdur Cymraeg, beirniad ac eisteddfodwr brwd sy'n fwy adnabyddus dan ei enw barddol *Llwyd o'r Bryn*. Mae'i lyfr *Y Pethe* a gyhoeddwyd ym 1955 yn llawn o ddisgrifiadau ac atgofion o'i fro enedigol a'i chymdeithas drwyadl

Gymraeg ym Meirionnnnydd. Bathwyd y term '*Y Pethe*' ganddo i, gynrychioli'r traddodiad gwerinol Cymraeg diwylliedig a'i werthoedd gorau.

A throi at y byd crefyddol, ganed Pab Pawl 111 – Alessandro Farnese (1468-1549) ar 29

Chwefror, sef Pab Eglwys Rufain o 1534 hyd ei farw. Ond yn fwy pwysig ac arwyddocaol i ni yng



Nghymru heddiw yw bod dau berson hynod o weithgar gyda'r Annibynwyr wedi'u geni ar y diwrnod mawr, sef **Elin Maher**, Arweinydd Eglwys Mynydd Seion, Casnewydd, a'r **Parchedig Gwyn Elfyn Jones**, Gweinidog Capel Seion, Dre-fach,



Nasareth Pont- iets a Bethesda, Y Tymbl.

PEN-BLWYDD HAPUS IAWN IDDYN NHW!



GAIR O DDIOLCH

Annwyl Gefnogwyr

Apêl Teganau Nadolig Cyngor Sir Gâr

Ysgrifennaf i ddiolch yn fawr iawn i chi am eich cyfraniad a'ch cefnogaeth at Apêl Teganau Nadolig Cyngor Sir Gâr 2019. O ganlyniad i'ch haelioni chi ac eraill llwyddwyd i ddarparu dros 6,200 o deganau i 1,045 o blant a oedd mewn angen dros adeg y Nadolig. Roedd yr ymateb i'r apêl o ran teganau yn ogystal â chyfraniadau ariannol yn brawf o garedigrwydd a haelioni trigolion Sir Gâr. Bydd trefniadau apêl 2020 yn cychwyn yn fuan a gobeithiwn y bydd eich cefnogaeth yn parhau. Unwaith eto diolch o galon am eich cyfraniad.



Yn gywir

Y Cynghorydd Mair Stephens (Dirprwy Arweinydd)

Nia Thomas (Rheolwr Systemau Addysg)

CWRDD DIACONIAID Y PRIORDY

Nos Fercher 12 Chwefror 2020 am 7 yn y Festri

Os oes unrhyw faterion yr hoffech i'r diaconiaid eu trafod, yna rhowch wybod i'r Ysgrifennydd Gohebol mewn da bryd os gwelwch yn dda

**CWRDD BLYNYDDOL DIACONIAID Y PRIORDY A CHANA
A BLAENORIAID BANCYFELIN**

Nos Fercher 11 Mawrth 2020 ym Mancyfelin am 7

CYFUNDEB GORLLEWIN CAERFYRDDIN

CWRDD CHWARTER CANA

DYDD IAU, 12 MAWRTH 2020

Y Gynhadledd am 10.30

Cyfarfod prynhawn am 1.30

Yn ystod y prynhawn bydd y Parchedig

Robin Samuel yn siarad ar y testun *Newid Hinsawdd*



***Dyddiad a Lleoliad y Cwrdd Chwarter wedi hynny
14 Mai 2020 Capel Nebo, Llanpumsaint***

COGINIO YN YR YSGOL SUL



GAIR O DDIOLCH

Annwyl Beti Wyn James

**Rhodd o dlws i Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru
Sir Gaerfyrddin 2021**

Diolch yn fawr am y siec o £100.00 oddi wrthych ac fe fydd yn mynd yn erbyn targed Pwyllgor Apêl Tref Caerfyrddin

Cystadleuaeth – Parti Llefaru dan 25 oed

Geiriad y tlws fydd - Tlws yn rhoddedig gan Gapel y Priorddy, Caerfyrddin

Bydd y tlws yn cael ei nodi yn Rhaglen y Dydd, a Rhestr Testunau 2021 ac yn cael sylw o'r llwyfan hefyd pan fydd yr enillydd yn cael ei gyhoeddi.

Diolch yn fawr unwaith eto am eich rhodd ac am eich cefnogaeth i'r Urdd.

Yn gywir

Aled Siôn

Cyfarwyddwr yr Eisteddfod a'r Celfyddydau

GWASANAETH PASG CARTREF PLAS Y DDERWEN

Prynhawn Gwener – 27 Mawrth 2020 – 2 o'r gloch

gyda'n

Gweinidog

Croeso i bawb



DYDD GWEDDI

Oedfa Gymraeg

Dydd Gwener, 6 Mawrth 2020 – 2 o'r gloch

Capel yr Annibynwyr Saesneg, Heol Awst



BORE COFFI CYMORTH CRISTNOGOL

Dydd Sadwrn 21 Mawrth 2020 - 10 tan 12

yng nghwmni

MAER CAERFYRDDIN

Y CYNGHORYDD JEFF THOMAS

Capel y Bedyddwyr Saesneg

COGINIO YN YR YSGOL SUL





DATHLIADAU GŴYL DEWI CAERFYRDDIN 2020



**Gan fod Mawrth y cyntaf eleni ar y Sul bydd
gweithgareddau amrywiol yn cael eu cynnal yn y
dref yn ystod yr wythnos cyn ac ar ôl
Dydd Gŵyl Dewi. Dyma rai o'r prif ddigwyddiadau**

**Dydd Llun, 24 Chwefror 2020
Agoriad Pythefnos Masnach Deg 2020**

**Dydd Mawrth 25 Chwefror 2020
Theatr y Lyric
Plant: 10.30 Oedolion: 7.30
Cwmni'r Frân Wen yn cyflwyno Llyfr Glas Nebo – Manon Steffan Ros
*Manylion pellach mewn man arall yn y Papur.***

**Nos Iau 27 Chwefror 2020
Sesiwn Werin – Gwesty Pen y Baedd
Eco'r Grawys
Yr Eglwysi a'r Capeli'n ysbrydoli Newid Hinsawdd 2020**

**Dydd Gwener 28 Chwefror 2020
Ysgolion Caerfyrddin a'r Cylch yn perfformio ar y llwyfan yn y Clos Mawr
o 10 y bore ymlaen
Cystadleuaeth 'Pice ar y Maen' yn Yr Atom.**

**Dydd Sadwrn 29 Chwefror 2020
10 yb - Eglwys San Pedr Coffi a Bwydydd Cymreig
Cerddoriaeth, Côr Meibion, Clychau
10.30yb - Cwryglau, Baneri a Helfa Drysor
11yb - Y Parêd Mawr
O Eglwys San Pedr i Sgwâr y Clos Mawr
Dewch â'ch baneri a'ch clychau
11.30 – Digwyddiadau yn y Clos Mawr ac ar hyd a lled y dref
7.30 -Theatr y Lyric – Cowbois Rhos Botwnnog
*Manylion pellach mewn man arall yn y Papur.***

**GWASANAETHAU GŴYL DEWI
Yn y bore am 10 ym Heol Awst
Yn yr hwyr am 5 yn y Babel
*Manylion pellach yn y Suliadur***



DATHLIADAU GŴYL DEWI CAERFYRDDIN 2020



**Dydd Llun 2 Mawrth 2020
Canolfan Y Cei
“Storïau’r Cwrwgl” ar gyfer ysgolion**

**Nos Fercher 3 Mawrth 2020 - 7.30
Clwb Y Cwins
Tecwyn Ifan a Robin McBride**

**Nos Iau, 5 Mawrth 2020 - 6.00-7.30
Oriel Myrddin
Trafodaeth ddwyieithog yng nghwmni Kirsten Hinks-Knight ar lyfr
Caradog Pritchard ‘Un Nos Olau Leuad’**

**Nos Wener 6 Mawrth 2020
Theatr y Lyric - 7.30
Cyngerdd gan Y Tri Thenor a Chorau Ysgol Bro Myrddin
*Manylion pellach mewn man arall yn y Papur.***

**Yn cydreddeg bydd digwyddiadau’n cael eu cynnal yn Yr Egin,
y Farchnad, ac ardal Siopa Santes Dwynwen a Rhodfa Myrddin a Theithiau
Cerdded o’r Castell**

**PARCIO AM DDIM AR DDYDD GWENER (28 CHWEFOR) A DYDD
SADWRN (29 CHWEFOR) YM MEYSYDD PARCIO’R
CYNGOR SIR TRWY’R DREF**

**Gallwch gael mwy o fanylion am bob digwyddiad ar y gwahanol wefannau
cymdeithasol yn ystod mis Chwefror**

**Edrychwn ymlaen at bythefnos orlawn o ddathliadau i gofio am ein
Nawddsant Dewi**

**Os am fwy o wybodaeth cysylltwch â Jenny Fox y cydlynnydd yng Nghyngor
Tref Caerfyrddin ☎01267 235199**



GYDA'N GILYDD

Cylchlythyr Annibynwyr Gorllewin Caerfyrddin

Gaeaf 2020

Copi ar gael yn y cyntedd



Eisiau gwybod mwy am Gyfundeb Annibynwyr Gorllewin
Caerfyrddin?

Trowch at: cyfundeb.com?

CÔR MEIBION CAERFYRDDIN

yn

CWRW

32 Stryd y Brenin

Nos Sadwrn 29 Chwefror 2020 – 7.30

Cawl - Pice ar y maen

Tocynnau: £8 ymlaen llaw £10 wrth y drws



THEATR Y LYRIC COWBOIS RHOS BOTWNNOG

ar daith

Nos Sadwrn 29 Chwefror 2020 am 7.30

Tocynnau: ☎0345 2263510

SESIWN YMARFER

Bydd sesiwn i ddysgu sut i ddefnyddio
DIFFIBRILIWR newydd y Priordy (sydd
wedi'i osod ar wal flaen y Tŷ Capel) ar
Nos Lun, 24 Chwefror 2020 am 6.30 yn y
Festri



RADIO CYMRU

OEDFA'R BORE – BORE SUL 2 CHWEFOR 2020 – 11.30

BETI-WYN A RHAI O BOBL IFAINC Y PRIORDY

AGOR Y LLYFR yn YSGOL Y DDERWEN



DYLETSWYDDAU



GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS



Chwefror		Mawrth	
Gofalwr	Gwresogwr	Gofalwr	Gwresogwr
Gwynfor Davies	Philip Jones	Wyn Tegryn Evans	Huw Jones



PARATOI'R BWRDD CYMUN



Chwefror	2	Bore	Meleri Llwyd O'Leary a Meinir Jones
----------	---	------	-------------------------------------



BLODAU



Chwefror	2	Alwen Owen	Mawrth	1	
	9			8	Luned Thomas
	16	Mtfanwy Jones		15	
	23			22	Enid Evans
				20	



YMWELWYR



Ionawr / Chwefror	Janet Davies a Gloria Evans
Mawrth / Ebrill	Rhian Evans ac Eirlys Jones Henry a Bronwen Wilkins



DARLLENWYR



Chwefror	1	Elen Marks	Mawrth	1	
	9			8	Jayne Woods
	16	Gill Owens		15	Chris Lloyd
	23	Huw Michael		22	Y Mamau
				29	Elinor W Reynolds



CYHOEDDWYR



Chwefror	Wyn Tegryn Evans	Mawrth	Catrin H Jones
----------	------------------	--------	----------------



ANFONWN ein cofion cynhesaf at Mair Baston, Nigel Jenkins, Victor Jones a June Thomas sy yn yr ysbyty. Dymunwn yn dda iddynt ac i bawb arall sy'n anhwylus y dyddiau hyn.

Ein llongyfarchiadau i'n diaconiaid newydd a gafodd eu derbyn yn Oedfa Gymun dechrau'r flwyddyn.. Dymuniadau da iddynt a hefyd i'r rhai sy'n ymddeol ar ôl saith mlynedd o wasanaeth gwerthfawr. Gweler adroddiad Meinir Jones am yr Oedfa a hefyd y lluniau.



Fe welwch hefyd luniau yn y Papur o'r timau pêl-droed a phêl-rwyd a gymerodd ran yn Nhwrnamaint MIC yng Nghanolfan Hamdden Caerfyrddin. Da iawn iddynt am wneud mor dda. Mae manylion llawn ar Dudalennau'r Ifanc.

Tad a mab adnabyddus oedd y '**Ddau cyn Dau**' ar **Dros Ginio** ar **Radio Cymru** un diwrnod, sef Peter Hughes Griffiths, Aelod o Gabinet Cyngor Sir Gâr a Llyr Huws Gruffydd, Aelod Cynulliad. Buont yn sgwrsio gyda Dewi Llwyd am fywyd cerddorol a gwleidyddol y teulu ynghyd â'u diddordeb mewn chwaraeon. Ac fel cliw i ni geisio adnabod y ddau westai cyn eu henwi chwaraeodd Dewi Llwyd gân enwog Meinir Lloyd – *Watshia Di Dy Hun!*



Bu Elinor Wyn Reynolds yn sgwrsio gyda Beti George ar y rhaglen **Beti a'i Phobl** ar **S4C**. Roedd cefndir ei nofel gyntaf yn greiddiol i'r sgwrs a'i dewis o gerddoriaeth yn cynrychioli gwahanol gyfnodau yn ei bywyd, sef *Cân y Medd* - Dafydd Iwan, *Ar gyfer heddiw'r bore*- Parti Fronheulog, *Rocking the Cradle* – Bill Jones ac *Un Seren* – Delwyn Siôn.

A chyfres ddiddorol ar **Radio Cymru** yw honno gan y dramodydd Ian Rowlands, gŵr Elinor Wyn, yn dwyn y teitl **Tynged y Genedl**. Mae'r gyfres yn edrych ar berthynas Cymry Cymraeg a di-Gymraeg yn y Gymru gyfoes,

Bu Beti-Wyn ar **Bore Cothi** ar **Radio Cymru** yn sôn am Santes Dwynwen a hefyd ar yr un orsaf Tim Hayes yn adolygu'r tudalennau chwaraeon ar **Dewi Llwyd ar Fore Sul**.

Tybed faint ohonoch sy'n gwrando ar **Hawl i Foli** ar **Radio Cymru**? Cwis yw'r rhaglen am emynau Cymru. Bu'r newyddiadurwr Huw

Edwards yn holi dau dîm yn gyfuniad o weinidogion a cherddorion yn ddiweddar, sef Alwyn Humphreys a Beti-Wyn yn y naill a Richard Elfyn Jones ac Iwan Llywelyn Jones yn y llall. Pwy enillodd, meddech chi? Wel, Richard ac Iwan - o drwch blewyn. Ond fel y dywedodd yr holwr, nid yr ennill sy'n bwysig ond y straeon a'r hanesion difyr a ddaw yn sgil y cwestiynu.



Bu Wyn Tegryn Evans ar **Prynhawn Da** ar **S4C** yn rhannu'i brofiadau gyda'r Dr Ann yn dilyn gwyllo'r rhaglen **Drych** ar **S4C** yn ddiweddar. Talodd deyrnged hyfryd i Heather am ei chefnogaeth arbennig iddo.

Bu Heledd ap Gwynfor ar **Prynhawn Da** ar **S4C** yn sôn am Fentrau Iaith Cymru a'i rôl yn trefnu Noson Ddathlu gyntaf y Mentrau yn Aberystwyth,. Yn ystod y noson honno derbyniodd Dewi Snelson, Prif Weithredwr Menter Gorllewin Sir Gâr wobwr ar ran y Fenter yn y categori *Cydweithio â Phartner* am y gwaith yn datblygu Gŵyl Canol Dre Caerfyrddin gyda nifer helaeth o barneriaid eraill. Da iawn - ac edrychwn ymlaen at yr Ŵyl nesaf yn ein tref yn ddiweddarach eleni.

Ymddangosodd Elen Martin yn y gyfres **Nyrsys** ar **S4C**, sef cyfres ddogfen yn dilyn cenhedlaeth newydd o nyrsys yn paratoi i ofalu am gleifion ledled Cymru.

Ac yn y rhaglen **Dechrau Canu Dechrau Canmol** ar **S4C** i gofio'r Holocaust gwelwyd nifer o'n haelodau ymysg y cantorion yn Eglwys San Pedr Caerfyrddin a Chapel Newydd Llandeilo.

Bydd nifer ohonom yn cofio'n annwyl iawn am y ddiweddar Gwen Davies, un o'n haelodau ffyddlon a gollwyd ym mis Mehefin 2018. Tybed faint ohonoch a welodd yr eitem ddiddorol am ei merch, Sylvia Davies yn siarad â Huw Fash ar **Heno** ar **S4C** pan fu'n esbonio sut y bu iddi sefydlu cwmni tecstilau newydd o'r enw *EtoEto* yng Nghaerdydd? Wedi profi galar dwys ar ôl marwolaeth ei mam aeth ati i ddechrau ar lwybr gwahanol iawn i'w bywyd arferol. Llwyddodd i gyfuno'i diddordeb yn yr amgylchedd â sgiliau gwnïo'i mam i greu pethau hollol ddefnyddiol a hynod ddeniadol o wastraff llwyr, fel bagiau llaw ac ati. Ardderchog yn wir a phob dymuniad da i Sylvia a'i chwmni.

Mae Rhodri a Fiona Elias a'r merched Betsan Grug ac Anest Fflur wedi symud tŷ i Fronwydd yn ddiweddar. Pob hapusrwydd iddyn nhw ar eu haelwyd newydd.



Bu Beti-Wyn yn sôn yng Nghyfarfod Cymdeithas Cymru Ariannin (Cangen Sir Gar) am y gyfrol arbennig a roddwyd i Rachael Williams a ddaeth yn wraig i'r Parchedig D D Walters, gweinidog Tabernacl, Trelew wrth iddi adael y Priordy am y Wladfa ym 1909.



Ein llongyfarchiadau i Catrin Owen ar gael ei dewis i Gerddorfa Genedlaethol Ieuencid Cymru a Gwenan Fflur Jones i Dîm Gymnasteg Cymru dan 15. Pob llwyddiant i'r ddwy ohonynt!

AC I GLOI, llongyfarchiadau mawr i Eira Jenkins a fu'n dathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar (ffigur crwn). Pob dymuniad da, Eira, oddi wrth bawb yn y Priordy.



Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Mawrth i'n
Gweinidog ☎ 01267 237696 neu Alun Charles ☎ 01267 236037

CYDYMDEIMLAD

Estynnwn ein cydymdeimlad ag Ann Thomas ar golli'i hewythr Gwyn Hawker yn Y Rhosan ar Wy yn ddiweddar. Meddyliwn am ei briod a'i blant a'r teulu cyfan yn eu profedigaeth,

Mynegwn ein cydymdeimlad hefyd â Catrin Heledd Jones ar golli'i chefnider, Dewi Davies, Caerdydd (Garej Blossom Pencader gynt) ar 18 Ionawr 2020. Cofiwn am ei briod a'r plant a'r teulu cyfan yn eu hiraeth.

A chlywsom y newydd trist am golli Tudor Davies, un o'n haelodau, ar 27 Ionawr 2020. Estynnwn ein cydymdeimlad dwys â Non, ei briod, a'r plant Carys, Ann a Geraint a'r teulu cyfan yn eu galar a'u gofid.

DIOLCH YN FAWR

Diolch i Beti-Wyn, Mari Jenkins, Carys Morgans a Jayne Woods am y lluniau'r mis hwn.



THEATR Y LYRIC
Cwmni'r Frân Wen
LLYFR GLAS NEBO
Manon Steffan Ros

Nos Fawrth 25 Chwefror 2020 am 7.30

Tocynnau: ☎ 0345 2263510



Y SULLADUR



Chwefror	2	<i>Bore Hwyr</i>	Ein Gweinidog Ein Gweinidog	Cymun
	9	<i>Bore</i>	Cwrdd Plant a Phobl Ifainc gyda'n Gweinidog	
	16	<i>Bore</i>	Ein Gweinidog	
	23	<i>Bore Hwyr</i>	Y Parchedig Owain Llŷr Evans Cwrdd yr Ofalaeth yng Nghana am 2 gyda'r Parchedig Owain Llŷr Evans	

Mawrth	1	<i>Bore Hwyr</i>	Gwasanaeth Undebol Gŵyl Dewi gyda'r Plant a'r Bobl Ifainc a'r Dr Hefin Jones yn Heol Awst am 10 Gwasanaeth Undebol Gŵyl Dewi yng ngofal Gweinidogion ac Offeiriaid y Dref a'r Parchedig Ainsley Griffiths yn pregethu yn y Babell am 5	Cymun
	8	<i>Bore</i>	Ein Gweinidog	
	15	<i>Bore</i>	Ein Gweinidog	
Sul y Mamau	22	<i>Bore</i>	Oedfa Deulu gyda'n Gweinidog. <i>Casgliad at Goleg Undeb yr Annibynwyr</i>	
	29	<i>Bore Pnawn</i>	Y Parchedig Gareth Morgan Jones Oedfa Undebol i'r Ofalaeth yng Nghana am 2 gyda'r Parchedig Gareth Morgan Jones	

CALENDR Y PLANT A'R BOBL IFAINC								
✓ Ysgol Sul PIP - Pobl Ifainc y Priordy - Dim Ysgol Sul CP – Cwrdd Plant GD – Gwasanaeth Gŵyl Dewi OD – Oedfa Deulu								
Chwefror				Mawrth				
2	9	16	23	1	8	15	22	29
✓ PIP	CP	-	✓	GD	✓	✓ PIP	OD	✓

Y GYMDEITHAS Nos Iau 6 Chwefror 2020 - 7.00 Yn ymuno â Chymdeithas y Tair Eglwys yn y Tabernacl Huw Griffiths Y Ddaear, y Gofod a'r Amgylchedd
